WALES AUDIT OFFICE
SWYDDFA ARCHWILIO CYMRU

Archwilydd Cyffredinol Cymru
Auditor General for Wales

# Adolygiad o drefniadau llywodraethu Rhaglen Drawsnewid y Cyngor (T22) – **Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen**

Blwyddyn archwilio: 2018-19

Dyddiad cyhoeddi: Gorffennaf 2019

Cyfeirnod y ddogfen: 1384A2019-20

Paratowyd y ddogfen hon at ddefnydd mewnol Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen yn rhan o waith a berfformiwyd yn unol ag Adran 17 o Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004, adran 18 o Fesur Llywodraeth Leol Cymru 2009.

Nid yw’r Archwilydd Cyffredinol na staff Swyddfa Archwilio Cymru yn derbyn unrhyw gyfrifoldeb o ran unrhyw aelod, cyfarwyddwr, swyddog neu gyflogai arall yn eu rhinwedd unigol, neu unrhyw drydydd parti.

Os gwneir cais am wybodaeth y gallai'r ddogfen hon fod yn berthnasol iddi, tynnir sylw at y Cod Ymarfer a gyhoeddwyd o dan adran 45 o Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000.
Mae Cod adran 45 yn nodi'r arfer a ddisgwylir gan awdurdodau cyhoeddus wrth ymdrin â cheisiadau, gan gynnwys ymgynghori â thrydydd partïon perthnasol. Mewn cysylltiad â’r ddogfen hon, mae Archwilydd Cyffredinol Cymru a Swyddfa Archwilio Cymru yn drydydd partïon perthnasol. Dylid anfon unrhyw ymholiadau ynglŷn â datgelu neu ailddefnyddio’r ddogfen hon i Swyddfa Archwilio Cymru yn info.officer@audit.wales.

We welcome correspondence and telephone calls in Welsh and English. Corresponding in Welsh will not lead to delay. Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg. Ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

Mae’r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg

Roedd y tîm a gyflawnodd y gwaith yn cynnwys Gareth Jones ac Allison Rees, rheolwyd y rhaglen gan Non Jenkins dan gyfarwyddyd Huw Rees.

# Cynnwys

Mae trefniadau llywodraethu gwell yn ogystal ag ymrwymiad ac egni clir yn cefnogi Rhaglen T22 wedi'i hadnewyddu ond mae angen cryfhau rhai dulliau gwirio a chydbwyso.


Adroddiad cryno 4

Cynnig ar gyfer gwella 6

Adroddiad manwl

Mae trefniadau llywodraethu gwell yn ogystal ag ymrwymiad ac egni clir yn cefnogi Rhaglen T22 wedi'i hadnewyddu ond mae angen cryfhau rhai dulliau gwirio a chydbwyso 7

Mae blaenoriaethau'r Cyngor ar gyfer trawsnewid yn glir ac maent wedi'u cyfochri â'i gynlluniau ariannol tymor canolig, a gall hyn fod yn gryfach wrth iddo gytuno ar ei fodel gweithredu ar gyfer y dyfodol 7

Mae'r Cyngor wedi cryfhau ei drefniadau llywodraethu ar gyfer y Rhaglen T22 (Cam 2) wedi'i adnewyddu ac mae'n deall yn gyffredinol y swyddogaethau a'r cyfrifoldebau, ond mae angen egluro cyfranogiad Craffu a swyddogaethau'r Pennaeth Caffael a'r Swyddog Monitro 8

Mae uwch arweinwyr y Cyngor wedi rhoi ymrwymiad ac egni sylweddol i ail-bwysleisio'r Rhaglen yn ystod y chwe mis diwethaf, ac maent wedi nodi bod angen mwy o gapasiti rheoli rhaglen 10

Nid yw'r Cyngor wedi datblygu'n llawn ei ddull o werthuso effeithiolrwydd ei drefniadau llywodraethu T22 10

# Adroddiad cryno

## Crynodeb

### Yr hyn y gwnaethom ei adolygu a pham

1 Tua dechrau 2018, cyflwynodd Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen (y Cyngor) ei Raglen T22, a ddisgrifiwyd gan y Cyngor yn rhaglen newid hynod sylweddol i'r sefydliad cyfan (trawsnewid)[1].

2 Roedd rhaglen T22 cychwynnol y Cyngor yn cynnwys pum rhaglen strategol ryng-gysylltiedig:

- Meithrin Hunaniaeth Newydd
- Defnyddio Adnoddau yn Well
- Y Cwsmer a Digidol
- Rheoli Galw/Ymyrraeth Gynnar
- Newid Sefydliadol

3 Penododd y Cyngor Gyfarwyddwr newydd i'r Rhaglen T22 ym mis Tachwedd 2018. Wedi hynny symleiddiodd bwyslais Rhaglen T22 i'r meysydd blaenoriaeth canlynol:

- Galluogi Trawsnewid
- Y Cwsmer a Digidol
- Gwasanaethau Plant
- Gwasanaethau cymorth

4 Wrth bennu cwmpas ein hadolygiad, dywedodd y Cyngor wrthym:

- ei fod wedi cyflwyno trefniadau llywodraethu diwygiedig ar gyfer y rhaglen ar sail methodoleg Managing Successful Programmes®. Mae gan bob un o'r pedwar maes blaenoriaeth sydd wedi'u cynnwys yn y Rhaglen Fwrdd wedi'i gadeirio gan uwch swyddogion arwain y Cyngor. Mae'r swyddogion hyn yn gweithredu fel 'Noddwr y Prosiect'. Mae Bwrdd y Rhaglen T22 wedyn yn goruchwylio'r Rhaglen gyfan ac mae'n gyfrifol am bennu cyfeiriad cyffredinol cyflawniad y Rhaglen a chefnogi cyfarwyddwr y rhaglen i wneud penderfyniadau. Y Cabinet erbyn hyn yw corff noddi y Rhaglen.
- bydd y rhaglen waith Galluogi Trawsnewid yn canolbwyntio ar sicrhau'r gallu, capasiti a diwylliant gofynnol i drawsnewid yn llwyddiannus a gall gynnwys pwyslais ar weledigaeth, gwerthoedd, model gweithredu yn y dyfodol a datblygiad y gweithlu.
- mae o'r farn bod y Rhaglen T22 yn cyfrannu'n sylweddol i'w helpu i fynd i'r afael â'i heriau ariannol a nodir yn ei Gynllun Cyllid Tymor Canolig a'i Gynllun Gwasanaethau; a

[1] Cyfarfod Cabinet Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen 16 Ionawr 2018 (Eitem Agenda 6)

- bydd yn cadw golwg ar y pedair blaenoriaeth uchod a gall y Rhaglen T22 gynnwys blaenoriaethau eraill hefyd yn y dyfodol.

5 Fe wnaethom gynnal yr adolygiad hwn ym mis Ebrill a mis Mai 2019.

## Yr hyn a ganfuwyd

6 Ceisiodd ein hadolygiad ateb y cwestiwn: **A yw trefniadau llywodraethu'r Cyngor ar gyfer y Rhaglen T22 yn cefnogi cyflawniad Cynllun Corfforaethol y Cyngor mewn modd effeithlon ac effeithiol?**

7 Yn gyffredinol, gwelsom: **Mae trefniadau llywodraethu gwell yn ogystal ag ymrwymiad ac egni clir yn cefnogi Rhaglen T22 wedi'i hadnewyddu ond mae angen cryfhau rhai dulliau gwirio a chydbwyso.** Daethom i'r casgliad hwn oherwydd:

- bod blaenoriaethau'r Cyngor ar gyfer trawsnewid yn glir ac maent wedi'u cyfochri â'i gynlluniau ariannol tymor canolig, a gall hyn fod yn gryfach wrth iddo gytuno ar ei fodel gweithredu ar gyfer y dyfodol;
- mae'r Cyngor wedi cryfhau ei drefniadau llywodraethu ar gyfer y Rhaglen T22 (Cam 2) wedi'i adnewyddu ac mae'n deall yn gyffredinol y swyddogaethau a'r cyfrifoldebau, ond mae angen egluro cyfranogiad Craffu a swyddogaethau'r Pennaeth Caffael a'r Swyddog Monitro;
- mae uwch arweinwyr y Cyngor wedi rhoi ymrwymiad ac egni sylweddol i ail-bwysleisio'r Rhaglen yn ystod y chwe mis diwethaf, ac maent wedi nodi bod angen mwy o gapasiti rheoli rhaglen; ac
- nid yw'r Cyngor wedi datblygu'n llawn ei ddull o werthuso effeithiolrwydd ei drefniadau llywodraethu T22.

# Cynnig ar gyfer gwella

## Arddangosyn 1: cynnig ar gyfer gwella

Mae'r tabl isod yn nodi'r cynnig ar gyfer gwella a nodwyd gennym yn dilyn yr adolygiad hwn.

| Cynnig ar gyfer gwella | |
|---|---|
| C1 | Cryfhau trefniadau llywodraethu’r Rhaglen T22 trwy:<br>• egluro cyfranogiad:<br>– Craffu<br>– Caffael<br>– Cyngor cyfreithiol/Swyddog Monitro<br>• cryfhau’r ddealltwriaeth a rennir rhwng Bwrdd a Chabinet y Rhaglen (y Grŵp sy’n Noddi) ar amserlenni ar gyfer penderfyniadau allweddol y Rhaglen T22; a<br>• sefydlu dull cadarn o adolygu a gwerthuso effeithiolrwydd trefniadau llywodraethu’r Rhaglen. |

# Adroddiad manwl

## Mae trefniadau llywodraethu gwell yn ogystal ag ymrwymiad ac egni clir yn cefnogi Rhaglen T22 wedi'i hadnewyddu ond mae angen cryfhau rhai dulliau gwirio a chydbwyso

### Mae blaenoriaethau'r Cyngor ar gyfer trawsnewid yn glir ac maent wedi'u cyfochri â'i gynlluniau ariannol tymor canolig, a gall hyn fod yn gryfach wrth iddo gytuno ar ei fodel gweithredu ar gyfer y dyfodol

8 Mae'r Cabinet wedi pennu cyfeiriad clir ar gyfer y Cyngor gyda thair blaenoriaeth gorfforaethol: Torfaen glân a gwyrdd; codi cyrhaeddiad addysgol; a chefnogi trigolion mwyaf agored i niwed Torfaen.

9 Tua diwedd 2018, yn dilyn penodiad Cyfarwyddwr newydd i'r Rhaglen T22, adolygodd y Cyngor flaenoriaethau'r Rhaglen T22 a bennwyd tua dechrau 2018. Gostyngodd nifer y blaenoriaethau i dair: Gwasanaethau Plant, Y Cwsmer a Digidol, a Gwasanaethau Cymorth. Mae pedwaredd flaenoriaeth - 'Galluogi Trawsnewid' - yn cefnogi cwmpas a chyflawniad y Rhaglen T22.

10 Mae blaenoriaethau diwygiedig T22 yn cyd-fynd yn uniongyrchol â dwy o flaenoriaethau corfforaethol y Cyngor. Fodd bynnag, gan fod £11 miliwn o arbedion y Cyngor gwerth £19.5 miliwn yn y cynllun ariannol tymor canolig yn ymwneud â gwasanaethau addysg, mae swyddogion y Cyngor yn rhagweld y bydd blaenoriaeth T22 yn dod i'r amlwg yn y dyfodol sy'n ymwneud â gwasanaethau addysg. Bydd hyn yn cyd-fynd â'r drydedd flaenoriaeth gorfforaethol i godi cyrhaeddiad addysgol.

11 Nododd Bwrdd y Rhaglen T22 yr angen am eglurder ynghylch model gweithredu y Cyngor yn y dyfodol. Comisiynodd ymgynghoriaeth allanol i helpu i dynnu'r model hwn at ei gilydd ym mis Ebrill 2019.

12 Ar adeg ein gwaith maes, nid oedd yn glir a oedd y Cabinet a Bwrdd y Rhaglen T22 yn gweithio i'r un amserlenni ar gyfer adrodd a phenderfynu ar fodel gweithredu y Cyngor yn y dyfodol.

13 Mae'r Byrddau Prosiect a sefydlwyd i arwain datblygiad yr achosion busnes ar gyfer newid o dan bob un o feysydd blaenoriaeth T22 yn eu cyfnod pennu cwmpas ar hyn o bryd. Mae gan bob Bwrdd Prosiect Noddwr Prosiect a ddywedodd wrthym nad yw diffyg model gweithredu y cytunwyd arno ar gyfer y dyfodol yn llesteirio cynnydd ar y cam hwn. Mae'r Cyngor yn dymuno parhau i ysgogi'r cyflymdra newydd ac nid yw'n dymuno oedi trafodaethau ynghylch cynnydd cwmpas y prosiectau T22 wrth aros am fodel gweithredu cymeradwy ar gyfer y dyfodol. Fodd bynnag, mae Noddwyr Prosiect yn cydnabod bod yn rhaid i fodel gweithredu ar gyfer y dyfodol fod ar waith cyn i'r Cabinet ystyried unrhyw achos busnes.

14 Cafwyd cyd-ddealltwriaeth ymhlith yr holl rai y cyfwelwyd â nhw, er y bydd canlyniadau'r Rhaglen T22 newydd yn cyfrannu at fynd i'r afael â Chynllun Ariannol Tymor Canolig y Cyngor, ni ddisgwylir i'r Rhaglen ymdrin yn llawn â phwysau ariannol y Cyngor.

15 Nid oedd gan y Noddwyr Prosiect gyd-ddealltwriaeth o'r amserlenni ar gyfer datblygu achosion busnes terfynol i'w cymeradwyo. Gall hyn fod yn arwydd nad yw'r Rhaglen yn gweithio yn ôl ar hyn o bryd o gerrig milltir allweddol, yn hytrach mae'n gweithio tuag at bwyntiau gwneud penderfyniadau nad oes cyfyngiad amser arnynt ar hyn o bryd.

16 Mae Galluogi Trawsnewid yn bedwerydd Bwrdd Prosiect trawstoriadol i'r T22 sy'n cwmpasu tair blaenoriaeth arall y T22. Mae gan y Bwrdd Prosiect hwn gylch gwaith goruchwylio i sicrhau bod y tri Bwrdd Prosiect arall yn:

a. cyflawni nodau a chamau;

b. ystyried gwahanol ddulliau o drawsnewid o'r tu allan i'r Cyngor;

c. sicrhau bod T22 wedi'i ymsefydlu'n wirioneddol yn y Cyngor; a

ch. sicrhau bod digon o adnoddau i alluogi'r Cyngor i weddnewid.

17 Felly, mae'r bwrdd prosiect Galluogi Trawsnewid yn hollbwysig i ddarparu cyngor ac arweiniad, monitro cynnydd a sicrhau cyflymdra da wrth gyflawni'r Rhaglen. Mae'n rhy gynnar ar y cam hwn o'r Rhaglen T22 newydd i gael sicrwydd bod y Bwrdd Galluogi Trawsnewid yn cyflawni ei swyddogaeth goruchwylio.

## Mae'r Cyngor wedi cryfhau ei drefniadau llywodraethu ar gyfer y Rhaglen T22 (Cam 2) wedi'i adnewyddu ac mae'n deall yn gyffredinol y swyddogaethau a'r cyfrifoldebau, ond mae angen egluro cyfranogiad Craffu a swyddogaethau'r Pennaeth Caffael a'r Swyddog Monitro

18 Mae trefniadau llywodraethu y T22 newydd (Cam 2) ac amlder cyfarfodydd yn ysgogi cynnydd o ran cyflymdra, perchnogaeth o'r Rhaglen ac atebolrwydd am ei chyflawni.

19 Ar 9 Ebrill 2019, cymeradwyodd y Cabinet adroddiad ar Gam 2 y Rhaglen T22 o 2019-20 hyd 2022-23. Roedd yr adroddiad hwn yn cynnwys strwythur llywodraethu newydd a swyddogaethau a chyfrifoldebau newydd i grwpiau llywodraethu cysylltiedig y Rhaglen. Fodd bynnag, nid yw'r adroddiad yn cyfeirio at swyddogaeth y Swyddog Monitro yn y trefniadau hyn, ac yn dilyn ein gwaith maes ar gyfer yr adolygiad hwn, mae swyddogaeth y Swyddog Monitro yn y Rhaglen T22 yn parhau i fod yn aneglur.

20 Mae strwythur clir i'r trefniadau llywodraethu newydd. Mae Byrddau Prosiect unigol yn cwrdd cyn Bwrdd cyffredinol y Rhaglen a gaiff ei gadeirio gan y Prif Weithredwr, fel noddwr cyffredinol y Rhaglen. O ganlyniad i'r strwythur diwygiedig, mae gan uwch swyddogion y Cyngor fwy o ymgysylltiad uniongyrchol erbyn hyn gan fod pob

un yn aelod o Fwrdd y Rhaglen T22 ac maent i gyd (namyn un) yn Noddwyr Prosiect T22. Mae Noddwyr Prosiect yn cadeirio eu Byrddau Prosiect perthnasol ac yn cyflwyno adroddiadau cynnydd yng nghyfarfodydd Bwrdd y Rhaglen.

21 Mae Noddwyr Prosiect T22 yn eglur ynghylch diben eu swyddogaeth, swyddogaeth eu Byrddau Prosiect, yn ogystal â'u swyddogaeth wrth fynychu cyfarfodydd Bwrdd y Rhaglen T22.

22 Mae cofnodion Bwrdd y Rhaglen T22 a Byrddau Prosiect yn dangos bod y Noddwyr Prosiect yn darparu adroddiadau cynnydd cryno i'w trafod. Mae Bwrdd y Rhaglen yn cytuno ar y camau nesaf a chofnodir penderfyniadau clir ynghyd â chamau penodol a ddyrennir i Noddwyr Prosiect. Mae Bwrdd y Rhaglen hefyd yn mynd ati i ystyried risgiau'r Rhaglen.

23 Mae Bwrdd y Rhaglen a Noddwyr Prosiect wedi dirprwyo cyfrifoldebau gwneud penderfyniadau ar gyfer materion gweithredol yn ymwneud â'r Rhaglen. Yn ystod gwanwyn 2019, gwnaeth Bwrdd y Rhaglen benderfyniadau ynghylch caffael arbenigedd ychwanegol i gefnogi gweithgareddau penodol o fewn y Rhaglen, gan gynnwys y model gweithredu yn y dyfodol a'r dull diwygiedig o weithredu gwasanaethau plant. Yn ystod ein gwaith maes, roeddem yn ymwybodol nad oedd y caffael arfaethedig o ddull diwygiedig o ddarparu gwasanaethau plant wedi'i drafod â'r Pennaeth Caffael cyn i Fwrdd y Rhaglen wneud ei benderfyniad ym mis Mai 2019. Roedd cyfanswm cost y prosiect wedi'i gynnwys yn y cynnig ond nid dadansoddiad manwl o'r costau. Mae angen i'r Bwrdd sicrhau ei fod yn cael cyngor caffael cyn gwneud penderfyniadau a dylai'r Cyngor egluro swyddogaeth y Pennaeth Caffael mewn cysylltiad â'i Raglen T22.

24 Mae aelodau yn cymryd mwy o ran yng Ngham 2 o'i gymharu â Cham 1 o'r Rhaglen T22. Trafododd y Fforwm Datblygu Polisi sy'n cynnwys y Cabinet ac uwch swyddogion y Cyngor esblygiad y Rhaglen T22 ar ddechrau 2019. Ym mis Mawrth 2019, cafwyd seminar â holl aelodau'r Cyngor i rannu gwybodaeth am ddatblygiad y Rhaglen T22 newydd. Ar adeg ein gwaith maes, nid oedd y pwyllgor craffu wedi cymryd llawer o ran yng Ngham 1 a Cham 2 y Rhaglen T22. Fodd bynnag, rydym yn deall y caiff y swyddogaeth graffu yn y Rhaglen T22 ei harchwilio gyda Chadeirydd y pwyllgor craffu trawstoriadol. Cydnabu'r rhai y cyfwelwyd â nhw fod angen egluro ymlyniad craffu yn y trefniadau llywodraethu yn y dyfodol.

25 Erbyn hyn mae'r Cabinet yn chwarae rhan fwy gweithredol yn y Rhaglen T22 fel y Grŵp Noddi ac mae ganddo well pwyslais ac ymrwymiad. Mae'r Cabinet yn amlwg yn gyfrifol ac yn fwy atebol am benderfyniadau strategol allweddol sy'n ymwneud â'r Rhaglen.

26 Dosbarthwyd y dogfennau ar gyfer cyfarfod Bwrdd y Rhaglen ar 13 Mai 2019 ar fore'r cyfarfod. Nid yw hyn yn arfer da oherwydd nad yw'n rhoi digon o amser i aelodau'r Bwrdd ddarllen y dogfennau cyn y cyfarfod.

## Mae uwch arweinwyr y Cyngor wedi rhoi ymrwymiad ac egni sylweddol i ailbwysleisio'r Rhaglen yn ystod y chwe mis diwethaf, ac maent wedi nodi bod angen mwy o gapasiti rheoli rhaglen

27 Mae bod ag uwch swyddogion yn Noddwyr Prosiect T22 yn cefnogi gwell perchnogaeth ac atebolrwydd o ran datblygu a chyflawni blaenoriaethau T22 erbyn hyn. Mae holl uwch swyddogion y Cyngor yn chwarae rhan weithredol mewn cyflawni ac arwain T22. Mae pob uwch swyddog wedi dangos yn glir ymrwymiad cadarn i'r Rhaglen T22 ac wedi cydnabod bod trawsnewid yn rhan allweddol o'u swyddogaeth gorfforaethol yn ogystal â'u cyfrifoldebau maes gwasanaeth presennol.

28 Ar hyn o bryd, caiff llawer o amser uwch swyddogion ei dreulio ar bennu cwmpas a chyflawni gwaith y pedwar Bwrdd Prosiect i gyflawni'r Rhaglen T22 ar y cyd.

29 Yn ogystal ag ymrwymiad amser yr uwch swyddogion, mae pob Bwrdd Prosiect yn cynnwys rheolwyr sy'n gweithio gyda'r uwch swyddogion i ddatblygu achosion busnes y prosiectau.

30 Cytunodd y Cabinet, fel y Grŵp Noddi, i ddyrannu'r gronfa ymyrraeth gynnar ac atal flynyddol gwerth £500,000 i gynorthwyo adnoddu datblygiad a chyflawniad y Rhaglen T22.

31 Mae Bwrdd y Rhaglen wedi nodi mai risg allweddol gwireddu'r Rhaglen yn llwyddiannus yw diffyg capasiti i reoli rhaglen y prosiectau ar draws y Rhaglen. I fynd i'r afael â hyn, mae Bwrdd y Rhaglen wedi cytuno i ddefnyddio rhywfaint o'r cyllid a ddyrannwyd gan y Cabinet, ac ym mis Ebrill 2019 cytunodd y Bwrdd i gomisiynu ymgynghorwyr i helpu i ddatblygu ei fodel gweithredu yn y dyfodol. Cytunodd y Bwrdd hefyd mewn egwyddor, yn ei gyfarfod ym mis Mai 2019, i atgyfnerthu tîm cyflawni'r Rhaglen T22 trwy recriwtio dau Reolwr Prosiect a Newid. Fodd bynnag, gofynnodd y Bwrdd am ragor o ymchwil i ddatblygu cynnig manylach i'w ystyried yng nghyfarfod mis Mehefin 2019 Bwrdd y Rhaglen T22 er mwyn gallu gwneud penderfyniad ffurfiol.

## Nid yw'r Cyngor wedi datblygu'n llawn ei ddull o werthuso effeithiolrwydd ei drefniadau llywodraethu T22

32 Erbyn hyn, mae trefniadau llywodraethu diwygiedig y Rhaglen T22 yn rhoi mwy o oruchwyliaeth i'r Cyngor o'i raglen drawsnewid. Er mwyn i'r Cyngor fod yn sicr bod y trefniadau hyn yn effeithiol ac yn addas i'w diben, mae gwerthusiadau rheolaidd yn hanfodol i lwyddiant y Rhaglen.

33 Mae gan Fwrdd Prosiect Galluogi Trawsnewid y Rhaglen T22, o dan y ffrwd waith arweinyddiaeth a llywodraethu, swyddogaeth arweiniol i sicrhau bod sicrwydd annibynnol o'r trefniadau llywodraethu. Nid yw'r dull sicrwydd hwn wedi'i ddatblygu ar hyn o bryd ac mae angen i Fwrdd y Prosiect ddiffinio ystyr sicrwydd annibynnol a sut y caiff ei gyflawni.

34 Bydd cynnal adolygiadau a gwerthusiadau llywodraethu cadarn yn rhoi sicrwydd i'r Cyngor ynghylch a yw'r holl 'ddulliau gwirio a chydbwyso' wedi'u hystyried a'u cymhwyso'n gyson ac a ydynt yn effeithiol. Er enghraifft, trwy:

- sicrhau bod cyngor caffael ar gael ar yr adeg gywir yn natblygiad y prosiect;
- sicrhau bod gan y Swyddog Monitro oruchwyliaeth glir o achosion busnes ac yn gallu cyfrannu ar yr adeg gywir; a
- chaniatáu i'r pwyllgor craffu gymryd rhan weithredol mewn craffu ar gynigion a chynnydd T22 a'u herio ar yr adeg gywir.

Wales Audit Office
24 Cathedral Road
Cardiff CF11 9LJ

Tel: 029 2032 0500
Fax: 029 2032 0600
Textphone.: 029 2032 0660

E-mail: info@audit.wales
Website: www.audit.wales

Swyddfa Archwilio Cymru
24 Heol y Gadeirlan
Caerdydd CF11 9LJ

Ffôn: 029 2032 0500
Ffacs: 029 2032 0600
Ffôn testun: 029 2032 0660

E-bost: post@archwilio.cymru
Gwefan: www.archwilio.cymru